**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwilio Craffu - Cydraddoldebau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 11 Hydref 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L S Gibbard (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | T J Hennegan | Y V Jardine |
| M Sherwood | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Cllr Mary Sherwood | Aelod y Cabinet - Cymunedau Gwell (Pobl) |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S Pritchard

---

1 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Rhoddodd y Cynghorydd Sam Pritchard ei ymddiheuriadau am absenoldeb. Mae'r Cynghorwyr Skyes a Fitzgerald yn tynnu'n ôl o'r Panel.

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

3 **Trosolwg o Gydraddoldebau**

Roedd y Cynghorydd Mary Sherwood, Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Pobl) a Tracey Smith, Prif Swyddog Cyfreithiol a Monitro yn bresennol yn y Panel i gyflwyno trosolwg o'r pwnc. Trafodwyd y materion canlynol:

- Y cefndir cyfreithiol gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, tri nod y ddyletswydd gydraddoldeb yw rhoi sylw priodol i'r angen am:
  - Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, fictimeiddio ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb
  - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai sydd heb y nodwedd honno.
  - Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a'r rhai sydd heb y nodwedd honno.
- Y ddyletswydd gyffredinol i gynnwys y nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, rhyw, hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a chyfnod

mamolaeth, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred (neu ddiffyg cred), priodas neu bartneriaeth sifil.
- Yng Nghymru, mae dyletswydd statudol sy'n ymhelaethu ar Reoliadau (Cymru) 2011 sy'n gosod dyletswyddau penodol ar yr awdurdod, megis:
  - Creu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
  - Pennu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb
  - Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb
  - Adolygu'r amcanion cydraddoldeb o fewn 4 blynedd o'r dyddiad dechrau
  - Cydymffurfio â'r darpariaethau cynnwys
  - Nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol
  - Cyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd hygyrch
  - Asesu a monitro effaith polisïau a newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau
  - Casglu data gweithwyr yn flynyddol
  - Ystyried a ddylai amodau dyfarnu contract caffael gynnwys ystyriaeth i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol
  - Cyhoeddi amcan cydraddoldeb mewn perthynas ag ymdrin ag unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodwyd a chymryd camau i ymdrin ag unrhyw fwlch cyflog
- Hoffai Aelod y Cabinet weld y cyngor yn mynd y tu hwnt i'n dyletswydd gyfreithiol a phwysleisiodd bwysigrwydd y dyletswyddau a ymgorfforwyd yn yr awdurdod lleol.
- Cytunwyd bod yn rhaid i'r amcanion cydraddoldeb a bennwyd gan y cyngor arwain at ganlyniadau gwell i bobl.
- Mae'r Cynllun Cydraddoldeb presennol yn dod i ben yn 2020 felly byddwn yn diwygio'r ddogfen. Bydd y cynllun yn edrych yn wahanol iawn ac yn cael ei symleiddio. Cynllunio i gael cyfarwyddyd strategol cliriach y bydd adrannau'n ei gyflwyno. Byddem yn gwerthfawrogi barn y panel o'r ymchwiliad hwn er mwyn helpu i ddiwygio'r ddogfen honno.
- Mae'n bwysig ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r nodau lles a 'Chymru sy'n fwy cyfartal' yn benodol.
- Mae'n bwysig i'r Cynllun Cydraddoldeb gael trosolwg gwleidyddol i sicrhau ei fod yn gweithio'n dda ac i gymryd camau gweithredu lle bo angen gwneud newidiadau.
- Mae llawer o waith yn cael ei wneud o ran materion cydraddoldeb gyda CLILC ac mae'r panel yn awyddus i gael y newyddion diweddaraf wrth iddynt adrodd arnynt.
- Efallai nad yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yw'r ffordd orau ar gyfer y dyfodol am eu bod nhw'n cael eu cynnal yn rhy hwyr yn y broses - mae angen mwy o gydgynhyrchu.

## 4 Cynllunio'r Ymchwiliad i Gydraddoldebau

Trafododd y panel ei gylch gorchwyl a'r rhaglen waith a fydd ar yr agenda i gytuno arnynt yng nghyfarfod nesaf y panel ar 24 Hydref 2018.

The meeting ended at 4.55 pm